Cwis

Cynhaliwyd noson gymdeithasol Rhieni ac Athrawon gyda Mr John yn trefnu cwis ar gyfer y rhieni a Mrs Sian Witts yng ngofal Bingo gyda'r plant. Enillodd sawl un wobr ar y noson. Cafwyd paned a chlonc ar ddiwedd y noson.

Myfyrwyr

Bu dwy fyfyrwraig yn arsylwi (un yn y Babanod ar llall yn yr Iau) am gyfnod o bythefnos. Byddant yn ôl yn y flwyddyn newydd yn treulio eu Ymarfer Dysgu cyntaf gyda ni. Edrychwn ymlaen i groesawu Lowri Owen a Bethan Hughes ym mis Ionawr.

Hoci

Daeth y tîm ieuengaf yn gyfartal gydag Ysgol Tal-y-bont ac fe enillodd y tîm hynaf (4 i 1) yn erbyn Comins-coch. Llongyfarchiadau i'r ddau dim.